

YMDDWYN YN ONEST BOB AMSER

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y brodyr i'w holi eu hunain i weld a ydynt yn onest ym *mhob* peth

RHAID I GRISTNOGION YMDRECHU'N GALED I FOD YN ONEST, YN ENWEDIG HEDDIW (7 mun.)

Fe wyddoch ein bod yn byw mewn cyfnod o anonstrwydd na fu ei debyg erioed o'r blaen (*w86 11/15 10-11; g89 3/22 3*)
Nid yn rhywbeth wedi'i gyfyngu i enghreifftiau achlysurol mwyach; mae ymwrthod â safonau onestrwydd ar raddfa eang
'Dyw anonstrwydd ymhlith gweithwyr yn ddim ond un enghraifft o ba mor eang yw anonstrwydd (Esboniwch gydag enghraifft *leol* neu gweler *w88 2/15 3-5; tp 17-18*)
Fe wyddom fod sawl ffurf ar anonstrwydd a'i fod i'w gael mewn llawer lle, nid dim ond mewn un wlad
Yn debygol o weld enghreifftiau yn ddyddiol—dweud celwydd, twyllo, dwyn—yn yr ysgol, mewn llywodraeth, yn y gymdogaeth
'Dyw hyn ddim yn syndod i Gristnogion, gan i'r Beibl ei ragfynegi (Darllen 2 Timotheus 3:1-4)
Onid oes cysylltiad rhwng diffyg gonestrwydd a bod yn ariangar, yn enllibus, yn fradwrus ac yn ddigrefydd?
Yn wyneb yr ysbryd anonest hwn sydd mor gyffredin, rhaid inni ymladd yn galed i fod yn onest
Mae perygl y gallai Cristion ddechrau teimlo fod yn rhaid cyfaddawdu peth ar ei onestrwydd er mwyn gallu byw yn y drefn bresennol
Gwelir yr agwedd gywir y dylai pawb ei choleddu yn Hebraeid 13:18, 19 (Darllen)
Yn ddiamau ein dymuniad yw bod yn onest, ond mae'n briodol ein holi'n hunain yn ofalus i weld pa mor onest ydym
'Ydi bod yn onest ym *mhob* peth yn golygu mwy na pheidio â dwyn, peidio â zweud celwyddau?
'Ydym ni'n gweld yn Hebraeid 13:18, 19 y bendithion sy'n gysylltiedig ag onestrwydd?
Yn ein trafodaeth heddiw, byddwn yn trin agweddau a all o bosib', effeithio ar eich bywyd a'ch ymddygiad
Addas yw inni ddechrau gyda ni ein hunain ac yn ein cartref a chyda'n teulu ein hunain

BYDDWN YN ONEST AMDANOM EIN HUNAIN A CHYDAG AELODAU'N TEULU (12 mun.)

Mae'n hanfodol i Gristion yn gyntaf fod yn onest amdano ei hun, yn fodlon wynebu'r gwirionedd
Efallai mai ein hymateb cyntaf fyddai, "Rydw i'n ceisio bod yn onest a geirwir bob amser!"
Mae bod yn onest amdano ein hunain yn cynnwys cydnabod ein bod yn amherffaith (1Bren 8:46; *tp 109*)
Gan ein bod yn amherffaith, fe fyddwn ni'n cyfeiliorni, yn gwneud penderfyniadau anghywir, yn pechu; 'wnawn ni gyfaddef hynny'n onest? (*w82 9/1 28-30*)
Efallai ein bod yn 'nabod person sy'n barod i gydnabod fod pob bod dynol yn amherffaith, gan gynnwys ef ei hun, ond nad yw'n barod i gydnabod hynny pan fanylir ar enghraifft arbennig sy'n ymwneud ag ef ei hun
'Fyddwn ni'n oedi cyn cydnabod i'n gwraig, gŵr, plant, neu rieni mai ni oedd yn anghywir?
Mae cyfaddef o'r galon ein bod yng anghywir yn sicrhau heddwch ag eraill
'Fedrwch chi weld lle i wella yn yr agwedd hon ar 'ymddwyn yn onest'?'
Mae gweithredu'n onest o fewn cylch y teulu yn dangos cariad at Dduw a'r teulu (*w88 2/15 7*)
Aelodau'r teulu yw ein cymdogion agosaf, felly dylem fod yn eirwir â nhw (Eff 4:25)
Wrth gwrs, 'dyw'r angen i fod yn onest ddim yn cyfiawnhau bod yn anwedus neu'n ddi-flewyn-ar-dafod; gallwn fod yn garedig ac yn ystyriol, ond mae bod yn onest yn golygu nad ydym yn camliwio'r gwirionedd neu yn ei osgoi
Mae llawer o broblemau yn dilyn pan nad yw gŵr neu wraig yn trin y cymar mewn ffordd onest
Os yw gŵr yn zweud anwiredd ynglŷn â fan lle bu neu os yw gwraig yn prynu rhywbeth y mae'n gwybod na fydd ei gŵr yn ei gymeradwyo, ceir awyrgylch o dyndra yn y cartref
Pan ddaw'r peth i'r amlwg, mae'n fwy anodd maddau ac anghofio; mae amheuan ynglŷn â phethau eraill yn cynyddu
Os yw person yn cyfeiliorni, bydd cyfaddef y camgymeriad yn onest yn helpu'r llall i'w anghofio; mae'n annog parch y naill at y llall
Tanseilir hyder plant gan esiamplau anonest rhieni, hyd yn oed mewn pethau "bychan"
Efallai y clywant y rhieni'n trafod pam nad ydynt am dderbyn gwahoddiad arbennig ac yn ddiweddarach glywed rheswm gwahanol sy'n amlwg yn ffug yn cael ei roi i'r person
Efallai y disgwylia'r rhieni i blentyn gydweithredu'n anonest ynglŷn â pham nad oedd yn yr ysgol, gan roi rheswm celwyddog i'r athro
'Ydi hyn yn helpu plant i barchu gwirionedd ac onestrwydd? Neu a fydd yn pylu eu cydwybod?
Doeth yw zweud y gwir hyd yn oed pan fydd hynny'n debygol o achosi anawsterau
Gall olygu cosb, ond cysylltir bywyd â disgyblaeth gywir (Diar 4:13)
Mae cynorthwyon pendant ar gael i ni i fod yn onest â ni ein hunain ac â'n teulu
Fe ddylai popeth 'rydym yn ei ddysgu fel Cristnogion ein helpu ni, oherwydd mae Duw, ei Air, a'i gyfundrefn oll yn amlgu onestrwydd ac yn ei annog; gallwn ddysgu ganddynt
Mae rhwymau cariad a pharch yn ein helpu i fod yn eirwir, yn onest, gyda'n teulu

YMDDWYN YN ONEST YN EIN HYMWNEUD SECIWLAR (14 mun.)

O'u cyferbynu â'r byd, dylai Cristnogion fod yn onest mewn pethau sy'n ymwneud â gwaith (Darllen Titus 2:9, 10)
Cyngor Paul i Gristnogion o gaethweision oedd bod yn onest; gellir cymhwyso hyn heddiw
Os oedd caethwas i beidio â dwyn, oni fyddai hyn hefyd yn wir am weithiwr cyflogedig?
Hawdd fyddai i weithiwr dibynadwy 'ladrata' drwy fynd â thŵls neu gyflenwadau adref neu drwy ddefnyddio ffôn, car, neu gronfeydd arian y cwmni yn bersonol heb awdurdod (Eff 4:28; *w88 2/15 4-5*)

Gallwn ofyn i ni ein hunain: “Ydw i’n onest wrth hawlio faint o amser a weithiais neu dreuliau i’w had-dalu, wrth gymryd amser salwch?” (Siaradwr: Gallech godi cwestiynau eraill, ond peidiwch â chondemnio; ceisiwch brocio’r gydwybod)

’Does dim rheswm digonol dros ofni wrth fod yn onest, oherwydd mae Duw yn gofalu am y rhai sydd yn onest (Salmau 37:25; *tp* 114-16)

Caiff person cyfiawn (sy’n cynnwys bod yn onest) sicrwydd y bydd diwallu ei angenrheidiadau (Mth 6:33)

Mae gonestrwydd hefyd yn bwysig yn ein hymnwneud â’r awdurdodau seciwlar (Darllen Rhufeiniaid 13:1, 2, 5-7)

Mae llawer person yn cyfiawnhau gweithredu’n amheus ym myd trethi, tollau, taliadau cymdeithasol, neu fudd-daliadau Mae hyn yn rhywbeth difrifol i Gristnogion sydd am gael cydwybod lân ac osgoi barn niweidiol

Osgowch arferion anonest cyffredin sy’n ymwneud â budd-daliadau neu gymorth-daliadau

’Does dim o’i le mewn derbyn cymorth gan y Wladwriaeth os oes gennych hawl go iawn iddo a bod ei angen arnoch (*w83* 4/1 8-11)

Mae’r Beibl yn ein hannog i weithio i’n cynnal ein hunain os medrwn, ac mae’n anghymeradwyo diogi (2Thes 3:10)

Ni fyddai onestrwydd Cristnogol yn caniatáu rhoi gwybodaeth ffals er mwyn cael cymorth

Ni fyddai’n ystumio ffeithiau er mwyn bod yn gymwys nag yn methu ag adrodd am amgylchiadau fyddai’n diweddu budd-dal

Gall hyn fod yn wir am sicrhau insiwrans digyflogaeth neu gymhorthdal llywodraeth i sicrhau cartref

Gall Cristion wynebu prawf onestrwydd ynglŷn â threthi (*w79* 1/15 30-1; *g86* 11/8 26-7)

Dywedodd Paul am i ni dalu’r hyn sy’n ddyledus; y llywodraeth sy’n pennu’r hyn sy’n ddyledus

’Fyddem ni byth yn gofyn cael ein rhyddhau rhag talu neu gael ostyngiad yn y tâl a ninnau heb hawl i hynny

Mae talu’r hyn sy’n ddyledus hefyd yn golygu adrodd am yr holl enillion y dywed y gyfraith fod yn rhaid gwneud adroddiad amdanynt

Petai’n cyflog yn cynnwys cildyrnau y dylid adrodd amdanynt, fyddwch chi’n adrodd amdanynt?

Yn perthyn i dalu treth mae onestrwydd wrth wneud toll-daliadau, osgoi smyglo

Hawdd rhesymoli fod y toll-dal yn ormodol neu bod y cyfyngiadau yn afresymol, ond beth sy’n ddyledus?

Yn ogystal â chadw cydwybod lân, mae onestrwydd yn y pethau hyn yn ein hamddiffyn rhag cosb

Mae gofyn am onestrwydd hyd yn oed pan fo bodloni’r gofynion yn anodd

Yn aml, mae pobl sy’n honni bod yn onest yn dwyn pan nad oes fawr debygolrwydd y cânt eu cosbi

Cymryd “cofroddion” o westai neu adeiladau cyhoeddus (*g73* 3/22 6-7)

Mae llawer yn twyllo wrth ddefnyddio’r teliffon, yn cyfleu negesau heb dalu

Ar adegau o drychineb, mae pobl honedig onest yn chwilio am ysbail (*g79* 12/22 19)

Mae Cristnogion yn osgoi hyn oherwydd eu bod nhw’n onest o’r galon, nid dim ond oherwydd bod ofn cosb arnynt

BYDDWN YN ONEST O’R GALON YM MHOB FFORDD (6 mun.)

Mae’n amhosib ystyried yma bob sefyllfa lle gellid rhoi prawf ar eich onestrwydd

Yn sylfaenol yr hyn sydd ei angen ar Gristnogion yw caru onestrwydd ac awydd i fod yn onest bob amser (*yp* 214-15)

Hebreaid 13:18 yn crybwyll hyn, gan ddweud: “Am ein bod yn *dymuno* ymddwyn yn iawn ym mhob peth”

Mae cymhelliant y galon yno, yn helpu’r gydwybod a’r meddwl i ddewis cwrs gonest

Os oes diffyg yn awydd calon Cristion i fod yn onest, gallai fethu dan brawf

Gweithredodd Ananias a Saffeira yn anonest; diffyg calon dda (Darllen Actau 5:1-5)

Mae perygl i ninnau hefyd, gan fod y rhybudd am dwyll y galon yn berthnasol weithredol ’nawr (Jer 17:9)

Hyn yn pwysleisio’r angen i feithrin cariad at onestrwydd a’i werthfawrogi, a chydymffurfio’r galon â hynny

Myfyriwch yn werthfawrogi ar onestrwydd a ddangosir gan gyd-Gristnogion, yn enwedig os yw onestrwydd rhywun yn wahanol i’r ffordd y byddem ni wedi gweithredu’n “naturiol”; mae hyn yn gymorth i hyfforddi’r galon a’r gydwybod

Mae meithrin onestrwydd o’r galon yn bwysig, gan ei bod yn debygol mai yn breifat y daw’r prawf neu mewn ffordd anghyffredin

Oherwydd ein bod wedi ysgogi onestrwydd yn y galon, ’rydym yn debygol o ddewis y cwrs onest

BYDDWCH YN BENDERFYNOL O DDILYN DUW GWIRIONEDD AC ONESTRWYDD (6 mun.)

Cawn ein helpu i ddatblygu onestrwydd o’r galon drwy wybod ein bod felly yn efelychu Duw, nid Satan

Mae anwiredd ac anonestrwydd yn tarddu gyda Satan (In 8:44)

Mae gweithredu’n anonest—yn y gwaith, yn yr ysgol, o fewn y teulu—yn golygu efelychu Satan

Yn ddiamau Duw gwirionedd ac onestrwydd yw’n Duw Jehofah (Darllen Salmau 31:5, *Beibl Cysegr-Lân*)

Mae’n gas ganddo dafod ffals, celwydd gau-dyst, a chloriannau twyllodrus (Diar 6:16-19; 20:23; *it-2* 874 ¶6, 7)

Fe fydd dilyn patrwm Duw mewn gwirionedd ac onestrwydd yn sicrhau hapusrwydd ’nawr ac am byth

Felly fe osgown ddrwgdybiaeth, cydwybod anesmwyth, a pherthynas dan straeu

Yn hytrach, bydd gennym gydwybod lân o flaen Duw a dyn, gyda’r rhyddid i weddio (*w88* 2/15 7)

Fe wrendy Duw ar weddiâu a gweithredu arnynt (Heb 13:18, 19)

Fe fydd gwirionedd ac onestrwydd yn agweddau hanfodol o lwyddo mewn bywyd

Llenwir y ddaear â phobl sy’n onest â Jehofah

Byddwn yn medru byw’n heddychlon â’r fath rai oherwydd byddant yn onest a geirwir gyda ni a ninnau gyda hwythau

Gallwn fod yn sicr y bydd gonestrwydd a gwirionedd yn trechu a pharhau; ’wnawn ni?

“Gwnawn” fydd yr ateb os meddylwn a gweithredu mewn harmoni â’r Duw gonest a geirwir, Jehofah

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. ’Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)